

## **Arolygiad Iechyd Meddwl (Dirybudd)**

Heatherwood Court:

Wardiau: Cas-gwent, Caerffili,  
Caernarfon ac Aberteifi

31 Hydref, 1 a 2 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	4
2.	Methodoleg .....	5
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth .....	6
4.	Crynodeb .....	8
5.	Canfyddiadau.....	10
	Safonau Craidd.....	10
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl .....	19
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl .....	22
6.	Y Camau Nesaf.....	23
	Atodiad A .....	24

## 1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- Yn ddiogel
- Yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- Yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- Yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)<sup>1</sup>

- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir

---

<sup>1</sup> Ddedfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Ystyried ansawdd y bwyd
- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

### 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad iechyd meddwl dirybudd â Heatherwood Court, Heol Llantrisant, Pontypridd, CF37 1PL, gyda'r hwyr ar 31 Hydref 2016, a thrwy'r dydd ar 1 a 2 Tachwedd 2016.

Mae Heatherwood Court yn ysbyty a adeiladwyd yn bwrpasol i ddarparu gwasanaeth ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis o salwch meddwl ac a all fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Fe'i cofrestrwyd am y tro cyntaf gydag AGIC ym mis Rhagfyr 2007, ac mae bellach wedi'i gofrestru i roi llety i 47 o gleifion o'r naill ryw. Mae'r ardal i gleifion o fewn yr ysbyty yn cynnwys pedair uned, gyda man cymunol canolig ar gyfer gweithgareddau a elwir "The Hub".

#### **Uned Cas-gwent**

Ward ddiogelwch isel, a 12 o welyau ar gyfer un rhyw yn unig ynddi; i ddynion ar adeg yr arolygiad.

#### **Uned Caerffili**

Ward ddiogelwch isel, a 12 o welyau ar gyfer un rhyw yn unig; i fenywod ar adeg yr arolygiad.

#### **Uned Aberteifi**

Ward ddiogelwch isel, a 12 o welyau ar gyfer un rhyw yn unig; i fenywod ar adeg yr arolygiad.

#### **Uned Caernarfon**

Ward adsefydlu dan glo ar gyfer un rhyw yn unig, ac 11 gwely ynddi; i fenywod ar adeg yr arolygiad.

Mae pob ward wedi'i chofrestru ar gyfer un rhyw yn unig, a gellir newid ei defnydd rhwng dynion a menywod, yn dibynnu ar y grŵp cleifion presennol.

Yn ystod yr arolygiad tri diwrnod, er inni ymweld â'r pedair uned i gyd, gwnaethom ganolbwyntio'n bennaf ar Gas-gwent a Chaernarfon; roedd y meysydd y canolbwyntiwyd arnynt yn cynnwys adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd cymheiriaid, a thri aelod o staff AGIC.

## 4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad o ysbyty Heatherwood Court ar draws y pedair uned i gyd, ond gwnaethom ganolbwyntio'n bennaf ar Gas-gwent a Chaerffili. Yn gyffredinol, gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac a oedd yn ddiogel ac yn effeithiol. Gwelsom gydberthnasau therapiwtig da a thîm o staff cydlynol. Fodd bynnag, gwnaethom roi Llythyr Sicrwydd ar Unwaith ynglŷn â chynlluniau gofal a thriniaeth un o'r cleifion unigol. Gwnaethom dderbyn ymateb boddhaol ar 30 Tachwedd 2016.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ers yr arolygiad diwethaf gan AGIC, cafwyd gwelliant o ran safon y cyfathrebu o fewn dogfennau, ac roedd y cwmni wedi dechrau cadw cofnodion electronig.
- Tystiolaeth o dimau amlddisgyblaeth sefydledig wedi'u seiliedig ar unedau sy'n darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Roedd y gwaith o asesu, monitro a chofnodi iechyd corfforol yn gynhwysfawr.
- Roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Mesur Iechyd Meddwl yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael ar gyfer cleifion, o fewn ardaloedd yr unedau, o gwmpas safle'r ysbyty, ac o fewn cymunedau lleol hefyd.
- Roedd cydberthnasau cadarnhaol gyda theuluoedd cleifion.
- Roedd cerbyd dynodedig er mwyn i'r cleifion gael mynediad at y gymuned.
- Roedd nifer boddhaol o staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Mae angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Archwiliadau rheoli meddyginiaethau gwell.
- Mae angen i algorithmau tawelu<sup>2</sup> fod ar gael yn rhwydd ar bob uned.
- Mae angen cau paneli gweld bob amser er mwyn cadw preifatrwydd.
- Dylai cofnodion meddyg teulu gael eu cynnwys mewn cynlluniau gofal a thriniaeth.
- Dylai bagiau offer argyfwng fod ar gael yn rhwydd bob amser.

---

<sup>2</sup>Tawelu cyflym yw'r broses o roi cyffuriau tawelu gyda'r nod o gyrraedd cyflwr o dawelwch cyn gytged â phosibl i gleifion sydd wedi'u tarfu'n ddifrifol neu'n dreisgar.



- Mae angen cynnal archwiliadau gwell er mwyn sicrhau bod offer/cofnodion iechyd yn cael eu cofnodi'n gyson.
- Mae angen diweddarau'r Datganiad o Ddiben i adlewyrchu'r gwasanaeth presennol.
- Mae angen archwilio dogfennau cyfreithiol mewn cofnodion cleifion i sicrhau eu bod i gyd yn cael eu cwblhau'n llawn.
- Adolygu cofnodion cleifion i sicrhau bod dogfennau yn cael eu ffeilio'n systematig.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

#### **Amgylchedd y ward**

Roedd pob uned yn Heatherwood Court ar gyfer rhyw unigol ac roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Gallai cleifion bersonoleiddio eu hystafelloedd gwely ac roedd digon o le ynddynt i gleifion unigol gadw eu heiddo. Yn dilyn asesiad risg, ac ar yr amod nad oedd unrhyw risgiau sylweddol, roedd y cleifion yn gallu cloi eu hystafelloedd gwely, ac roedd y staff yn gallu eu hagor pe bai angen.

Roedd gan yr holl unedau ardaloedd i gleifion dros ddau lawr. Nid oedd ystafelloedd gwely'r cleifion yn en suite, ac roedd rhai ohonynt wedi'u lleoli i fyny'r grisiau gyda chyfleusterau ystafell ymolchi, cawod a thoiled a rennir, tra oedd rhai i lawr y grisiau, yn agos i swyddfa'r nyrsys. Roedd y manau i lawr y grisiau yn cynnwys prif lofeydd y cleifion, ystafelloedd bwyta, ac ystafelloedd llai ar gyfer cyfarfodydd cleifion, therapïau ac ymwelwyr, ynghyd â thoiledau ychwanegol.

Ar y cyfan, gwelsom fod yr amgylchedd, dodrefn a gosodiadau yn Heatherwood Court yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn addas ar gyfer y grwpiau cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom weld bod y carped yn y man lolfa i lawr y grisiau yn uned Aberteifi wedi ei staenio ac wedi ei wisgo, ac er bod deuddeg o gleifion ar yr uned, dim ond un ar deg o gadeiriau/seti cyfforddus oedd ar gael. Dywedodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn aros i un gadair gyfforddus arall gael ei danfon ato. Roedd yr holl ystafelloedd byw wedi'u haddurno'n chwaethus yn unol â dymuniadau'r cleifion presennol.

Gwnaethom sylwi bod peiriannau darparu gel glanhau dwylo wedi'u gosod wrth y brif fynedfa i bob uned. Mae hyn yn galluogi'r cleifion a'r staff i lanweithio eu dwylo, sy'n lleihau croes-heintio.

Roedd gan bob uned ei gardd ddiogel ei hun y gallai cleifion fynd iddi. Hefyd, roedd iard yng nghanol yr ysbyty, lle roedd cleifion yn ymgynnull ac yn

cymdeithasu. Dyma oedd y man ysmegu hefyd. Roedd y cleifion wedi dweud yn ystod y cyfarfod "4wardz" misol (cyfarfod sy'n caniatáu i gleifion godi materion mewn perthynas ag unrhyw fater cyffredinol) bod y man hwn yn ddiflas ac yn anneniadol. Mae'r rheolwr cofrestredig, felly, wedi trefnu i artist lleol ymweld ac ymgynghori â chleifion am syniadau, gyda'r nod o beintio murluniau gyda'u cymorth hwy. Mae hon yn enghraifft dda o gynnwys y gymuned, a darparwyr yn gwrando ar gleifion hefyd.

Er bod yr unedau yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn ôl pob golwg, roedd angen i'r carpedi yn swyddfeydd y wardiau yn unedau Aberteifi a Chaerffili gael eu newid. Trafodwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig, a roddodd sicrwydd i ni fod y carpedi hyn eisoes wedi cael eu harchebu.

Roedd swyddfa'r ward yn uned Cas-gwent yn gyfyng iawn o ran lle, ac fe ddaeth yn orlawn gyda staff yn cofnodi nodiadau mewn cofnodion ac yn ateb y ffonau, ac roedd yn swnllyd iawn, gyda larymau yn canu yn y swyddfa ar bob adeg pan oedd claf yn gadael ei ystafell wely. Nid ystyriwyd bod yr amgylchedd hwn yn ffafriol i iechedd a lles staff, nac yn enghraifft dda o reoli ward.

### ***Cam gofynnol***

***Dylai'r rheolwr cofrestredig, mewn trafodaeth â'r staff, adolygu ac ystyried gwelliannau o ran yr amgylchedd gweithio hwn.***

### **Diogelwch**

Gwelsom fod gan bob aelod o'r staff ar y wardiau larymau diogelwch, a fyddai'n rhybuddio pobl eraill pe byddai argyfwng.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi nad oedd lefelau staffio parhaol yn ddigonol er mwyn rheoli'r ymddygiad heriol a'r risgiau yr oedd ambell glaf yn eu peri. Er enghraifft, roedd angen i nifer sylweddol o'r cleifion gael eu harsylwi'n well er budd eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill. Er mwyn darparu'r gofal hwn yn effeithiol, roedd nifer fawr o staff asiantaeth yn ychwanegol i'r staff parhaol. Dywedwyd wrthym fod deg o swyddi gwag parhaol ar adeg yr arolygiad.

Gwelsom hefyd fod byrddau cipolwg ar gleifion<sup>3</sup> yn cael eu defnyddio ar bob uned, ar wahân i uned Cas-gwent. Trafodwyd hyn â rheolwr yr uned a'r rheolwr cofrestredig, ac er bod cynlluniau i wella'r broses, nes bod y

---

<sup>3</sup> Mae'r bwrdd cipolwg ar ddiogelwch cleifion yn hyrwyddo ymwybyddiaeth sefyllfaol ar gyfer yr holl dîm clinigol.

gwelliannau hyn wedi'u gwneud, gwnaethom awgrymu y dylai'r broses bresennol gael ei hailgyflwyno.

Gwnaethom arsylwi ar y broses o weinyddu meddyginiaeth i gleifion pan oeddem ar y wardiau, a chanfuom fod anghysondebau o ran effeithiolrwydd a diogelwch ar draws yr ysbyty. Roedd oergell cyffuriau, cwpwrdd a throli heb eu cloi yn uned Caernarfon. Roedd cydbwysedd anghywir wedi'i nodi yn y llyfr cyffuriau a reolir, ac roedd nifer o gofnodion nad oeddent wedi cael eu cydlofnodi. Gwnaethom drafod y cydbwysedd a oedd wedi'i nodi'n anghywir ar 3 Hydref 2016 gyda rheolwr yr uned, a gwnaethom awgrymu y dylai'r fferylllydd a oedd yn ymweld fynd ar ei drywydd.

### ***Cam gofynnol***

***Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau rheoli meddyginiaethau yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cofnodion yn gywir a bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel.***

### ***Cam gofynnol***

***Dylai'r rheolwr cofrestredig drafod y mater o archwilio cyffuriau gyda'r fferylllydd sy'n ymweld.***

Yn uned Aberteifi, gwelsom fod y drefn yn well o ran rheoli meddyginiaethau, ac roedd y meddyginiaethau yn cael eu cofnodi a'u storio'n ddiogel ac yn gywir. Roedd y broses ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth i gleifion, er nad oedd yn anniogel, yn feichus; bu'n rhaid i staff baratoi meddyginiaethau yn yr ystafell glinigol a cherdded drwy'r swyddfa nyrsio i roi meddyginiaeth i gleifion drwy hatsh yn nrws y swyddfa nyrsio. Gwnaethom drafod y mater hwn â'r rheolwr cofrestredig, a ddywedodd wrthym fod hyn wedi cael ei nodi eisoes a bod trafodaethau i wella mynediad eisoes ar waith.

Gwnaethom ofyn i weld y polisi ar gyfer triniaeth dawelu gyflym, ond nid oedd ar gael yn rhwydd. Mae angen sefydlu algorithm i arwain triniaeth sy'n hawdd cael mynediad ati ar bob uned.

### ***Cam gofynnol***

***Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ac algorithm i arwain triniaeth dawelu gyflym ar gael yn rhwydd ar bob uned.***

### **Y tîm amlddisgyblaethol**

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â dull y tîm amlddisgyblaethol o weithio gan yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw. Dywedodd y staff fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn digwydd yn rheolaidd a bod staff o bob disgyblaeth yn cael eu cynrychioli, gan gynnwys seiciatreg ymgynghorol, seicoleg, therapi galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol, staff meddygol, a staff cymorth.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn rhai cydweithredol lle y lleisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan yr holl ddisgyblaethau, a lle roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan ei gilydd.

Roedd gwasanaethau seicoleg ar gael i'r cleifion ledled yr ysbyty; roedd gweithwyr seicoleg ac adfer cymdeithasol yn gweithio ar wardiau, ac roedd y rhain yn gweithio'n agos gyda staff nyrsio i ddarparu therapïau seicolegol i gleifion.

Roedd cleifion newydd yn cael eu hasesu gan y gwasanaeth seicoleg ac yna roedd ymyriadau'n dechrau ar gyfer y cleifion. Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn derbyn un sesiwn un i un bob wythnos, ac roeddent yn mynychu sesiynau grŵp os oeddent yn briodol. Roedd sesiynau grŵp yn cynnwys ymwybyddiaeth o sylweddau ac o gamddefnyddio sylweddau, sgiliau meddwl, rheoli dicter, ymwybyddiaeth fyfyrwl, a therapi sy'n canolbwyntio ar dosturi.

Roedd eiriolwyr annibynnol ar gael a dywedodd y cleifion ei bod yn hawdd cael mynediad at y gwasanaeth. Roedd cleifion hefyd yn gallu defnyddio'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol. Roedd cleifion yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth hwn; roedd cleifion yn gallu cysylltu â'r gwasanaeth eu hunain neu byddai aelodau o staff yn atgyfeirio ar ran y claf.

### **Preifatrwydd ac urddas**

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu drwy'r holl ysbyty. Dywedodd bron i bob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi derbyn llyfr canllawiau i gleifion pan gawsant eu derbyn, a bod aelod o'r staff wedi eu dangos o gwmpas y ward ac wedi rhoi esboniad ynghylch y drefn ddyddiol. Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, ac roeddent yn gallu ei gwneud mor gartrefol â phosibl o fewn eu hasesiadau risg unigol. .

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod rhai paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely cleifion yn cael eu gadael ar agor, gan amharu ar breifatrwydd cleifion. Gwnaethom drafod hyn yr adeg honno gyda staff yr uned, ac yn hwyrach gyda'r rheolwr cofrestredig. Esboniwyd bod y paneli arsylwi fel arfer ar gau trwy'r amser ac y byddent ond yn cael eu hagor gan staff er mwyn cynnal arsylwadau ac yna fe fyddent yn cael eu cau eto.

### ***Cam gofynnol***

***Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely ond yn cael eu hagor gan staff er mwyn cynnal arsylwadau ac nad ydynt yn cael eu gadael ar agor.***

Roedd yr holl gleifion yn gallu defnyddio ffôn er mwyn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Roedd cleifion hefyd yn gallu defnyddio ffonau'r swyddfa os oedd angen cysylltu â gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'u gofal yn yr ysbyty.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn gallu cwrdd â'u nyrs enwebedig yn breifat a bod ystafelloedd ar gael hefyd i'r cleifion allu cwrdd â'u teulu a'u ffrindiau'n breifat.

Roedd ystafell wrth y fynedfa i'r ysbyty lle y gallai plant ymweld ag aelodau teulu. Er inni weld rhai llyfrau darllen, nid oedd llawer o bethau eraill ar gael i gadw plant yn brysur. Byddai'n fuddiol pe byddai teganau ar gael er mwyn gwneud yr ymweliad yn llai dirboenus.

Dywedwyd wrthym nad oes ystafell wahanu ddynodedig gan Heatherwood Court. Mae ymddygiadau heriol gan gleifion yn cael eu rheoli gan amgylcheddau symbyliad isel (fel eu hystafelloedd gwely), technegau dad-ddwysáu a dargyfeirio, a defnyddio'r dull systematig a chydnybodedig ar gyfer rheoli ac atal ymddygiad ymosodol a fabwysiadwyd gan y sefydliad. Mae hyn yn sicrhau bod urddas yn cael ei gadw bob amser.

### **Therapiau a gweithgareddau i gleifion**

Roedd amrywiaeth eang o gyfleusterau mewn cyflwr da i hwyluso therapïau a gweithgareddau. Mae'r ysbyty yn cyflogi therapyddion galwedigaethol, a hyfforddwyr sgiliau bywyd. Roedd y staff o'r gwahanol ddisgyblaethau y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol iawn am y trefniant hwn ac yn teimlo bod yr unedau'n gallu cynnig ystod eang o weithgareddau i'r cleifion.

Ar ôl derbyn, roedd pob claf yn cael ei asesu, ac yn derbyn amserlen unigol a oedd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig, yn ogystal â gweithgareddau ar yr uned. Roedd cyfleoedd ar gyfer dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd, a allai arwain at gymwysterau ffurfiol, a'r posibilrwydd i rai cleifion fynychu cwrs yn y coleg. Roedd nifer o'r cleifion yn mynychu dosbarthiadau sgiliau bywyd, a oedd yn cynnwys siopa a choginio. Roedd gweithdy DIY, campfa, a gweithgareddau celf a chrefft, a oedd yn cynnwys dosbarthiadau crochenwaith. Gwnaethom ymweld â'r siop goffi a'r siop gyffredinol lle y gallai cleifion weithio er mwyn ennill sgiliau cwsmeriaid a manwerthu.

Roedd cleifion yn gallu defnyddio adnoddau golchi dillad er mwyn iddynt gynnal neu ddysgu'r sgiliau ymarferol hyn yn barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. .

Roedd cleifion a oedd yn ddigon iach i adael yr uned yn gallu mynd i siop leol y pentref, yn ogystal ag ymweld â Phontypridd a Chaerdydd fel rhan o'r rhaglen therapi galwedigaethol.

Gwelsom ar unedau'r menywod fod y cleifion a oedd yn dewis i barhau ar yr unedau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft, gemau bwrdd a gemau cyfrifiadur, yn darllen llyfrau a phapurau newydd, yn creu modelau, yn chwarae cardiau, ac yn gwyllo'r teledu. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion gwrywaidd fod y cyfrifiadur wedi torri rhai wythnosau yn ôl ac nad oedd llawer o bethau eraill ar gael i'w gwneud.

### **Gofal iechyd cyffredinol**

Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro iechyd corfforol cleifion, roedd yr ysbyty wedi cyflogi meddyg teulu a oedd yn cynnal clinigau yn yr ysbyty tair gwaith yr wythnos. Dywedodd staff a chleifion wrthym fod iechyd corfforol cleifion yn flaenoriaeth uchel yn yr ysbyty a bod y meddyg teulu yn rhagweithiol iawn.

Gwnaethom drafod cyfathrebu a chofnodi unrhyw ymgynghoriadau/triniaethau a chanfuom fod cofnodion y meddyg teulu yn cael eu cadw ar wahân i gofnodion yr ysbyty, er eu bod yn cael eu cadw ar y safle ac yn hygyrch mewn argyfwng. Byddai'n ddoeth pe byddai'r triniaethau a ragnodir gan y meddyg teulu yn cael eu cofnodi fel rhan o'r cynlluniau gofal a thriniaeth.

### ***Cam gofynnol***

***Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gofnodion gofal a thriniaeth i gleifion yn cael eu cadw mewn cofnod canolig er mwyn caniatáu i wybodaeth am iechyd gael ei rhannu.***

Roedd prif ystafell driniaeth/clinig lle roedd y meddyg teulu yn gweithio. Dyma oedd hefyd y man lle roedd yr offer cymorth cyntaf mewn argyfwng yn cael ei gadw. Mae'r offer hwn yn hanfodol o ran gofal critigol cleifion ac fel arfer bydd ei angen mewn sefyllfa argyfwng. Fodd bynnag, gallai mynediad gael ei rwystro pe byddai'r meddyg teulu yn archwilio claf a bod drws yr ystafell dan glo. Gwnaethom awgrymu y dylai rhagor o fapiau offer argyfwng gael eu harchebu, a dylid eu storio'n fwy agos i'r wardiau. Roedd y rheolwr cofrestredig yn cytuno.

### ***Cam gofynnol***

***Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod digon o offer/bapiau argyfwng ar gael yn rhwydd pe byddai argyfwng.***

Gwelsom dystiolaeth hefyd o Glinigau Merched Iach, sesiynau Bwyta'n Iach, dosbarthiadau rhoi'r gorau i ysmegu, a sgiliau gofalu am eich iechyd eich hun. Roedd y cleifion yn cael eu hebrwng i ymweld â'r deintydd lleol neu'r optegydd os a phan oedd angen.

Roedd y staff ar yr unedau wedi dechrau defnyddio'r system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol<sup>4</sup> ar gyfer rhai cleifion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei llenwi'n rheolaidd, ac roedd bylchau sylweddol ymhlith y cofnodion. O ganlyniad, roedd un claf a gafodd ddiagnosis posibl o sepsis<sup>5</sup> heb gael unrhyw gofnodion am fis. Os yw'r ysbyty yn cyflwyno dulliau iechyd penodol, mae angen iddo fod yn gyson a dylai'r rhesymeg am ddefnyddio'r dull gael ei chofnodi.

### ***Cam gofynnol***

***Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn cael eu cwblhau mewn modd cyson a dylai'r rhesymeg am ddefnyddio dulliau iechyd penodol gael ei chofnodi.***

### **Bwyd a maetheg**

Roedd ceginau ar bob uned i gleifion gael eu diodydd poeth ac oer eu hunain.

Roedd yr holl fwyd yn cael ei baratoi a'i goginio ym mhrif gegin yr ysbyty, a dyna oedd y man o le roedd yr unedau yn cael eu gweini. Dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y cyfan ar ansawdd, maint, amrywiaeth a dewis y prydau bwyd. Roedd hyn yn destun rheolaidd ar agenda cyfarfod y 4wardz, ac roedd unrhyw geisiadau yn cael eu trafod yn agored.

Roedd y bwydlenni'n newid bob pedair wythnos a gwelsom eu bod yn rhoi amrywiaeth o opsiynau prydau a byrbrydau i gleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn darparu ar gyfer cleifion â deietau penodol/arbennig a gwnaeth y cleifion ag anghenion diabetig gadarnhau mai dyma oedd y sefyllfa.

Darperid digon o ffrwythau ffres i bob uned i'r cleifion eu bwyta, ac roedd diodydd a byrbrydau ar gael y tu allan i amseroedd bwyd. Roedd y cleifion yn gallu prynu a storio eu bwyd eu hunain. Roedd yr unedau hefyd yn cynnal noson gludfwyd neu gallai cleifion brynu bwyd yn y siop goffi pe byddent yn dymuno.

### **Hyfforddiant**

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau saith aelod o staff a chanfuom yn gyffredinol fod strwythur y ffeiliau yn gyson â thystiolaeth o eiradon, gwiriadau

---

<sup>4</sup>Mae'r system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cynorthwyo staff gofal iechyd i nodi dirywiad o ran cyflwr cleifion mewn modd cyson, fel y gallant alw am help meddygol brys.

<sup>5</sup> Cyfeiriwyd hefyd at sepsis fel gwenwyn gwaed neu septisemia. Mae'n gyflwr a all fod yn fgythiad i fywyd sy'n cael ei sbarduno gan haint neu anaf.



gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a phroses recriwtio agored. Nid oedd y ffeiliau hyn yn cynnwys cofnodion o sesiynau goruchwyllo nac arfarniadau blynyddol; roedd y rhain yn cael eu storio dan glo ar yr unedau. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gallant fynychu grŵp wythnosol oedd yn cynnal sesiynau myfyrio seicoleg pe byddent yn dymuno.

Dywedodd y staff wrthym hefyd fod rhai aelodau staff asiantaeth nad oeddent wedi cwblhau'r un hyfforddiant mewn perthynas â rhai meysydd megis ataliaeth ac roedd hyn yn broblem ar adegau. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch reolwyr a chawsom ein sicrhau bod yr asiantaeth wedi derbyn cynnig yn ddiweddar i ymgymryd â'r un hyfforddiant ataliaeth â'r ysbyty er mwyn sicrhau cysondeb o ran technegau, a fyddai'n darparu arfer mwy diogel i gleifion.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr ysbyty yn defnyddio'r un aelodau staff asiantaeth pan oedd yn bosibl er mwyn cadw dilyniant o ran y gofal i gleifion. Gwnaethom ofyn i weld yr hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer y staff asiantaeth ac, er bod rhai o'r cofnodion yn cael eu gyrru ymlaen at AGIC yn electronig, nid oedd cofnodion eraill y gofynnwyd amdanynt ar gael.

Gwnaethom adolygu'r cofnodion hyfforddiant ac, er bod rhai bylchau, ar y cyfan roedd hyfforddiant yn hygyrch ac yn gyfredol. Dywedodd y staff y byddent yn elwa ar gael rhagor o hyfforddiant argyfwng sy'n benodol i'w maes gwaith.

### ***Cam gofynnol***

***Dylai'r rheolwr cofrestredig, fel rhan o'r broses arfarniadau blynyddol, drafod anghenion hyfforddiant y staff mewn perthynas â'u datblygiad personol/proffesiynol ac o ran diwallu anghenion argyfwng posibl cleifion mewn perthynas â'u maes gwaith.***

### **Llywodraethu**

Gwnaethom ddarllen y Datganiad o Ddiben cyfredol<sup>6</sup> a gwelsom ei fod yn dal i gyfeirio at Heatherwood Court fel ysbyty diogelwch canolig. Roedd yr ysbyty wedi newid i ddiogelwch isel tua blwyddyn yn ôl, ac felly mae angen diweddarau'r ddogfen.

### ***Cam gofynnol***

***Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn amlinellu'r gwasanaeth presennol a gynigir.***

---

<sup>6</sup>Dyma yw'r ddogfen sy'n amlinellu telerau ac amodau y gwasanaeth a ddarperir gan wasanaeth cofrestredig.

Gwnaethom edrych ar y system gwyno ac, er inni ddarganfod nad oeddem yn gallu cael mynediad at yr holl feysydd, roeddem yn fodlon bod y cofnodion o ansawdd uchel iawn, ac yn cynnwys disgrifiadau, cydnabyddiaethau ac ymchwiliadau annibynnol a oedd yn glir ac yn fanwl iawn.

Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n electronig a gwnaethom ganfod eu bod yn amrywiol o ran ansawdd. Roedd pob un ohonynt yn disgrifio'r digwyddiad ond roedd rhai yn brin o wybodaeth mewn perthynas â'r hyn a ddigwyddodd cyn y digwyddiad; roedd eraill nad oeddent yn cofnodi'r camau gweithredu na dilynol a gymerwyd yn dilyn y digwyddiad. Gallai'r ffaith fod y manylion hyn wedi'u hepgor gyfyngu ar y gallu i ddysgu gwersi.

Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd rheoli rheolaidd ar gyfer y rheolwr cofrestredig, yr arweinydd clinigol, rheolwyr unedau, y rheolwr gweithrediadau, y staff cadw tŷ, y staff arlwyyo, seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol, hyfforddwyr sgiliau bywyd a chleifion. Rhoddodd hyn sicrwydd i ni fod cyfathrebu yn agored a bod llinellau atebolrwydd yn glir.

Gwnaethom arsylwi ar ofal yn cael ei ddarparu drwy gydol ein hymweliad, a gwelsom fod cydberthnasau therapiwtig da yn cael eu cynnal. Roedd y tîm yn gydlynol, ac yn gweithio er budd gorau y cleifion bob amser. Roedd arweinyddiaeth, yn y rhan fwyaf o feysydd, yn effeithiol, ond roedd angen ychydig o gymorth ar rai rheolwyr mwy newydd er mwyn dysgu prosesau gwahanol.

Roedd un claf a oedd yn peri pryder i staff yr ysbyty ac adolygwyr AGIC hefyd. Roedd yn fwyfwy amlwg nad oedd yr ysbyty erbyn hyn yn gallu cynnig y lefel o ddiogelwch yr oedd ei hangen ar y claf ac roedd hyn yn dechrau cael effaith negyddol ar y claf dan sylw, cleifion eraill, cydberthnasau therapiwtig a morâl y staff. Gwnaethom drafod y sefyllfa yn helaeth ag uwch staff a'r heddlu ac, er bod yr ysbyty yn amharod iawn i gyflwyno dyddiad gadael i'r claf, gan fod dyletswydd i ofalu, roedd yr awdurdod comisiynu (y bwrdd iechyd a roddodd y claf yn Heatherwood Court) yn araf i adolygu'r achos. **Cyhoeddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio gan AGIC i Heatherwood Court er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau mewn perthynas â'r claf hwn yn gyfredol ac yn gywir. Derbyniwyd sicrwydd am hyn ar 21 Tachwedd 2016.** Mae AGIC, yn rhinwedd ei swydd fel rheoleiddwyr gofal iechyd yng Nghymru, wedi ysgrifennu at yr awdurdod comisiynu y tu allan i'r adroddiad hwn i gael sicrwydd bod y claf hwn yn derbyn gofal priodol mewn sefydliad sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd a thrwy ddefnyddio'r modd lleiaf cyfyngol.

Gwelsom gofnodion o ymweliadau'r darparwr, a oedd yn unol â Rheoliad 28 (2) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Gwelsom hefyd ganlyniadau'r arolwg boddhad o ddefnyddwyr gwasanaeth a gynhaliwyd yn 2016, ac roedd y rhain yn dangos bod y gwasanaeth yn

gwrando ar ddymuniadau ei gleifion. Roedd y canlyniadau yn gadarnhaol ac yn ganmoliaethus o ran darpariaeth y gwasanaeth.

### ***Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl***

Gwnaethom adolygu cyfanswm o saith set o'r ddogfennaeth iechyd meddwl a gadwyd yn ffeiliau'r cleifion, gan dair o'r pedair ward. Gwelsom fod y dogfennau hyn wedi'u cynnal yn dda ac wedi'u ffeilio'n systematig. Mae hyn yn caniatáu i staff y ward wirio statws cyfreithiol cleifion ac adolygu'r wybodaeth amdanynt yn rhwydd.

#### **Cadw cleifion**

Ar gyfer pob un o'r cleifion sy'n cael eu cadw o dan Adran 2, *Derbyn ar gyfer asesiad*, neu Adran 3, *Derbyn ar gyfer triniaeth*, roedd o leiaf un o'r meddygon a oedd yn rhoi'r argymhelliad wedi'i gymeradwyo dan Adran 12. Roedd y dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd

fwyaf priodol o ddarparu gofal. Roedd yr holl ddogfennau statudol wedi cael eu cwblhau'n gywir.

Lle roedd rhai cleifion wedi'u cadw o dan Ran 3 o'r Ddeddf, *Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd o dan ddeddfryd*, roedd copïau o'r ddogfennaeth yn gysylltiedig â'u cadw ar gael yn eu ffeiliau.

### **Cadw parhaus**

Lle roedd cleifion wedi bod yn ddarostyngedig i'r cam o adnewyddu'r cyfnod cadw, roedd y ffurflenni rhagnodedig cywir wedi cael eu cwblhau yn foddhaol o fewn yr amserlenni gofynnol.

### **Apelio yn erbyn cael eich cadw**

Roedd y cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawl i apelio yn erbyn cael eu cadw, ac roedd yn amlwg y byddai'r prosesau'n cael eu dilyn pe bai'r cleifion am apelio i Wrandawiadau Rheolwyr yr Ysbyty a Thribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl. Roedd gwrandawiadau yn cael eu cynnal o fewn y cyfnodau cadw cywir.

### **Adran 132 – darparu gwybodaeth**

Roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am eu cadw ac am eu hawliau o dan y Ddeddf. Lle'r oedd angen, pan oedd y cleifion yn gwrthod cyfathrebu â'r staff, neu os nad oeddent yn gallu deall y wybodaeth, byddai'r staff yn ceisio rhoi'r wybodaeth i'r cleifion yn rheolaidd.

Roedd eiriolwr iechyd meddwl annibynnol o'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol dynodedig yn ymweld â Heatherwood Court yn rheolaidd. Siaradodd y cleifion yn gadarnhaol am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

### **Cydsynio i driniaeth**

Gwelsom fod y dogfennau mewn perthynas â chlaf a fu'n destun darpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 589 o'r Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir. Roedd copïau o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda Chofnod Rhoi Meddyginiaethau'r claf, lle'r oedd hyn yn berthnasol. Lle bu'n rhaid i Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) awdurdodi tystysgrif cydsynio i driniaeth, cafodd cofnod o'r broses hon ei nodi yn nodiadau'r claf.

### **Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17**

Roedd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb o dan Adran 17 wedi'i hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf, ac roedd y terfyn amser neu'r dyddiad adolygu wedi'i gwblhau.

Roedd hyn yn cael ei nodi hefyd yng nghofnodion y cleifion, yn ogystal â pha mor llwyddiannus oedd y cyfnod absenoldeb gyda chaniatâd, ac unrhyw broblemau neu bryderon a gododd yn ystod y cyfnod absenoldeb gyda

chaniatâd. Fodd bynnag, canfuom nifer o ffurflenni nad oeddent yn nodi'r amser dychwelyd i'r uned.

### ***Cam gofynnol***

#### ***Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau cyfreithiol yn cael eu cwblhau'n llawn.***

Dywedodd rhai cleifion nad oeddent yn derbyn eu cyfnod absenoldeb gyda chaniatâd bob amser ar y dyddiad a drefnwyd oherwydd problemau staffio. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig, a gadarnhaodd fod hyn yn wir ar rai adegau. Fodd bynnag, ni fyddai'r cyfnod absenoldeb hwn yn cael ei fforffedu, ond byddai'n cael ei drefnu yn hwyrach yn y mis hwnnw. Gwelsom fod yr ysbyty yn gwneud trefniadau arloesol i sicrhau bod cleifion yn defnyddio eu habsenoldeb o dan Adran 17. Er enghraifft, ar uned Caernarfon, roedd yr holl gleifion yn dod o tu allan i Gymru, a gallai cyfnod o absenoldeb yn y cartref fod yn anodd oherwydd y pellter a phroblemau staffio. Fodd bynnag, aethpwyd ag un claf i orsaf drenau Bryste, a gwnaed trefniadau iddo ddychwelyd adref yn ddiogel. Cynhaliwyd asesiad risg clir ar gyfer hyn, fe'i nodwyd yn y cynllun gofal, a chytunwyd arno gan y tîm amlddisgyblaethol.

## ***Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl***

Roedd 46 allan o'r 47 o gleifion yn Heatherwood Court ar hyn o bryd yn destun i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, ac roedd y claf arall ar gyfnod o absenoldeb.

Gwnaethom adolygu pedair set o ddogfennau cynllunio gofal a thriniaeth cleifion.

Nodwyd bod gan gleifion ddwy set o ffeiliau cynllun gofal, un ohonynt yn benodol i les iechyd meddwl, ac un arall yn benodol i iechyd corfforol. Gwelsom fod barn cleifion yn amlwg yn cael ei hystyried drwy gydol y broses o gynllunio gofal.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth o gadw cofnodion yn dda, gydag anghenion nas diwallwyd yn cael eu cofnodi, cynlluniau gofal a oedd yn adlewyrchu'r Mesur Iechyd Meddwl, a thystiolaeth glir o ymyriadau a phwy oedd yn gyfrifol am eu gwneud. Roedd yr holl gofnodion yn dangos bod y broses cyn rhyddhau a chynllunio ôl-gofal yn cael ei hystyried, er y gallai hyn gael ei nodi mewn ffordd gliriach a mwy systematig.

### ***Cam gofynnol***

***Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu cadw mewn trefn systematig.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Heatherwood Court gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Heatherwood Court yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Bydd cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

## Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Ysbyty: Heatherwood Court

Dyddiad yr Arolygiad: 31 Hydref, 1 a 2 Tachwedd 2016

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 10	Dylai'r rheolwr cofrestredig, mewn trafodaeth â'r staff, adolygu ac ystyried gwelliannau mewn perthynas â'r amgylchedd gweithio hwn.	<p>Trafodwyd hyn mewn amrywiaeth o fforymau, gan gynnwys llywodraethu lleol ym mis Rhagfyr 2016, ac nid oes unrhyw gynlluniau i adleoli corlan y nyrsys.</p> <p>Symudwyd corlan y nyrsys y llynedd yn dilyn trafodaeth hir â'r tîm staff, y bwrdd, a'r adran ystadau er mwyn darparu ystafell dawel fwy ar gyfer cleifion.</p> <p>Byddwn yn gofyn am uned</p>	Carla Rawlinson	14 Rhagfyr 2016



		<p>aerdymheru drwy ein Hadran Ystadau a bydd y nifer o ddesgiau yn cael ei adolygu.</p> <p>Rhodddwyd gliniaduron i rheolwr yr uned a'r gweithiwr adfer seicogymdeithasol er mwyn gwneud eu gwaith yn fwy cludadwy. Yn ogystal â hyn, roedd y mater hwn yn waeth fyth am gyfnod hirfaith mewn perthynas â'r angen i sicrhau diogelwch cleifion gan nad oedd y weithfan i fyny'r grisiau yn hygyrch. Mae'r broblem hon bellach wedi'i datrys.</p>		
Tudalen 11	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau rheoli meddyginiaethau yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cofnodion yn gywir a bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel.</p>	<p>Mae fferyllwyr sy'n ymweld yn darparu ffolderi rheoli meddyginiaeth ar gyfer yr holl unedau a chynnal archwiliadau wythnosol sy'n nodi'r camau y mae angen i glinigwyr amrywiol roi sylw iddynt. Bydd rheolwyr unedau yn sicrhau bod yr holl gamau yn derbyn sylw yn dilyn hynny.</p> <p>Bydd rheolwyr unedau yn sicrhau bod</p>	Rheolwyr Unedau	31 Ionawr 2017


		<p>gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod cyffuriau a reolir yn cael eu harchwilio.</p> <p>Bydd rheolwyr unedau yn sicrhau bod ystafelloedd clinigol yn cael eu harchwilio bob dydd er mwyn sicrhau bod cypyrddau a throlïau yn cael eu cloi.</p>		
Tudalen 11	Dylai'r rheolwr cofrestredig drafod y mater o archwilio cyffuriau gyda'r fferyllydd sy'n ymweld.	Trefnir cyfarfod gyda'r fferyllydd sy'n ymweld, yn ogystal â'r trefniadau presennol lle mae'r fferyllydd yn trafod unrhyw faterion gyda'r clinigwyr ar ôl cynnal archwiliad.	Carla Rawlinson, Rheolwr Cofrestredig/Rebecca Conlon, Rheolwr Arweinwyr Clinigol	31 Ionawr 2017
Tudalen 11	Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ac algorithm i arwain triniaeth dawelu gyflym ar gael yn rhwydd ar bob uned.	Mae'r gweithgor polisi yn adolygu'r polisi hwn mewn cydweithrediad â'r fferyllydd sy'n ymweld. Unwaith y caiff ei gadarnhau, bydd y rheolwr cofrestredig/arweinydd clinigol yn sicrhau bod yr holl nyrsys yn ymwybodol o'r polisi ac yn cyflawni e-ddysgu Ashtons mewn perthynas â thawelu cyflym.	Carla Rawlinson  Rheolwr Cofrestredig  Rebecca Conlon, Rheolwr Arweinwyr Clinigol  Yr holl nyrsys	31 Mawrth 2017

		Yn y cyfamser, gofynnwyd i boster algorithm a ddefnyddir yn helaeth yn y GIG gael ei arddangos ym mhob ystafell feddyginiaeth.		
Tudalen 12	Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely ar gau oni bai bod staff yn cynnal arsylwadau ac nad ydynt yn cael eu gadael ar agor.	Bydd y weithdrefn leol mewn perthynas â hyn yn cael ei nodi fel thema ar gyfer sesiynau goruchwyllo staff drwy gydol mis Rhagfyr 2016 a mis Ionawr 2017 er mwyn atgoffa'r staff am bwysigrwydd preifatrwydd ac urddas.	Rheolwyr Unedau	31 Ionawr 2017
Tudalen 13	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gofnodion gofal a thriniaeth i gleifion yn cael eu cadw mewn cofnod canolig er mwyn caniatáu i wybodaeth am iechyd gael ei rhannu.	Mae gan bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol a'r nyrsys cymwysedig fynediad at y gyrrwr a rennir sy'n dal cynlluniau gofal cleifion. Mae cofnodion y meddyg teulu ar gael i bawb ar Carepartner.	Carla Rawlinson/Adran TG	2 Tachwedd 2016
Tudalen 14	Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod digon o offer/bagiau argyfwng ar gael yn rhwydd pe byddai argyfwng.	Trafodwyd y mater hwn yn ystod llywodraethu lleol ym mis Rhagfyr 2016. Rydym o'r farn bod gennym ddigon o offer argyfwng ar gyfer y safle a, chan fod yr offer hyn wedi cael	Carla Rawlinson, Rheolwr Cofrestredig	14 Rhagfyr 2016

		<p>eu cadw yn ganolog yn ystafell y meddyg teulu ers i'r ysbyty agor yn 2007, mae pryderon y byddai newid hyn yn effeithio ar ba mor gyflym y gall staff gael gafael ar yr offer argyfwng.</p> <p>Mae'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch wedi dweud yn ffurfiol ein bod yn ddiogel o ran yr offer sydd gennym yn Heatherwood, lle y mae'n cael eu storio, a'r maint o offer sydd gennym. (Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf); Darpariaeth 3 o'r rheoliadau.)</p> <p>Yr unig fannau eraill a fyddai'n addas i gadw diffibriliwr allanol awtomatig byddai'r ystafelloedd meddyginiaeth ar yr unedau. Nodir y gallai mynediad gael ei gyfyngu gan fod y meddyg teulu yn defnyddio'r ystafell. Fodd bynnag, mae hyn ond am ddau ddiwrnod yr wythnos, ac rydym o'r farn y gallai mynediad at yr offer hyn gael ei gyfyngu hefyd oherwydd dim ond nyrsys cymwysedig sydd â mynediad</p>		
--	--	---	--	--

		<p>ffob i ystafelloedd meddyginiaeth, ond mae gan yr holl staff fynediad ffob i ystafell y meddyg teulu. Yn ogystal, mae mynediad yn fwy tebygol o gael ei gyfyngu gan ymddygiad cleifion ar uned, a gellid peri gofid i gleifion sy'n gweld aelodau staff yn dod i mewn i gasglu offer argyfwng.</p> <p>Yn olaf, pe byddai argyfwng meddygol yn codi pan oedd y meddyg teulu ar y safle, byddem yn disgwyl iddi roi cymorth. Mae aelod o'r staff yn hebrwng y cleifion bob amser, felly ni fyddent yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth.</p> <p>Bydd sgrin/lLEN breifatrwydd wrth-glymu yn cael ei rhoi o amgylch y sofffa archwilio ac mae'n cael ei harchebu gan y tîm ystadau.</p> <p>Yn unol ag asesiadau risg, mae ocsigen yn cael ei gadw yn ystafell y meddyg teulu yn unig.</p>	<p>Andy Keen, Rheolwr Cyffredinol</p>	<p>31 Ionawr 2017</p>
--	--	---	---------------------------------------	-----------------------

Tudalen 14	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn cael eu cwblhau'n gyson a dylai'r rhesymeg am ddefnyddio dulliau iechyd penodol gael ei chofnodi.	Mae ffurflen SBAR – y gellir ei defnyddio gyda siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ac sy'n dangos yn glir pa gamau i'w cymryd yn seiliedig ar sgoriau – wedi cael ei datblygu gan y Rheolwr Arweinwyr Clinigol. Mae wedi cael ei rhannu drwy e-bost ac ar hyn o bryd yn cael ei hatgyfnerthu wyneb yn wyneb gyda phob nyrs gan y Rheolwr Arweinwyr Clinigol. Mae wedi cael ei chyflwyno'n llawn yn barod mewn un uned ac yn cael ei defnyddio ac mae wrthi'n cael ei chyflwyno i'r tair uned arall.	Rebecca Conlon, Rheolwr Arweinwyr Clinigol	31 Ionawr 2017
Tudalen 15	Dylai'r rheolwr cofrestredig, fel rhan o'r broses arfarniadau blynyddol, drafod anghenion hyfforddiant y staff mewn perthynas â'u datblygiad personol/proffesiynol ac o ran diwallu anghenion argyfwng posibl cleifion mewn perthynas â'u maes gwaith.	Mae prosesau rheoli perfformiad newydd wedi cael eu datblygu gan y tîm Adnoddau Dynol canolog, ac mae'r holl staff sydd â chyfrifoldebau rheoli/goruchwyllo wedi derbyn hyfforddiant arnynt, gan gynnwys uwch weithwyr cymorth. Fel rhan o'r broses newydd hon, rhagwelir y bydd gan bob un o'r aelodau staff gynllun datblygu personol yn barod i ddechrau	Andy Keen, Rheolwr Cyffredinol	1 Mai 2017

		fis Mai 2017.		
Tudalen 15	Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn amlinellu'r gwasanaeth presennol a gynigir.	Bydd adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Ionawr, a bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r unigolyn cyfrifol newydd. Fodd bynnag, mae'r fersiwn bresennol o'r datganiad o ddiben, sef rhif 8.5, a gyflwynwyd gan Andy Mallet ym mis Ionawr 2016, yn nodi bod yr adeilad yn bodloni'r safonau diogelwch canolog ond mae'n rhestru'n glir y cleifion y mae angen diogelwch canolog arnynt o dan y meini prawf gwaha  edig. Heatherwood Court Statement of Purpose	Carla Rawlinson, Rheolwr Cofrestredig	31 Ionawr 2017
Tudalen 17	<b>Hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio</b> Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dogfennau sy'n ymwneud â'r claf unigol hwn (HT) yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd.	Gallaf gadarnhau, fel y rheolwr cofrestredig ac ar ran y darparwr cofrestredig, ein bod ni fel tîm amlddisgyblaethol bellach wedi diweddarau'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r claf a nodwyd, gan sicrhau yn unol â Rheoliad 23 (1) (a) (i) (ii) bod ei gynlluniau gofal a	Carla Rawlinson	14 Tachwedd 2016

		<p>thriniaeth yn gyfredol ac yn adlewyrchu diffyg ymgysylltiad y claf yn llawn a'r methiant o ran ei gydberthnasau therapiwtig. Rydym hefyd wedi diwygio cofnodion diweddar y tîm amlddisgyblaethol o ran y blwch ticio i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r claf hwn bellach wedi'i leoli'n briodol, yn unol â'r testun rhydd a'r manylion yn y cofnodion.</p> <p>Rydym yn parhau i bwysu ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i drosglwyddo'r claf, gan fod y cyfnod o rybudd wedi dod i ben, ond nid oes unrhyw ymgysylltiad ystyrlon o ran eu cynlluniau i drosglwyddo'r claf.</p>		
Tudalen 19	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau cyfreithiol yn cael eu cwblhau'n llawn.	Caiff hyn ei godi fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd tîm unedau ym mis Ionawr 2017, a bydd e-bost yn cael ei anfon at y staff yn dilyn hynny gyda botymau pleidleisio ie/na ynghlwm i ganiatáu i ymwybyddiaeth staff gael ei monitro o ran sut i gwblhau a llenwi	Rheolwyr Unedau / Uwch-weithwyr Cymorth	31 Ionawr 2017



		dogfennau absenoldeb Adran 17 yn llawn ac yn gywir.		
Tudalen 20	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu cadw mewn trefn systematig.	Mae archwiliad o gynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael ei gynnal gan y Rheolwr Arweinwyr Clinigol er mwyn adolygu cysondeb ar draws unedau. Gwneir hyn eto ym mis Chwefror 2017 er mwyn monitro camau a gwelliannau, a bob tri mis wedi hynny. Mae archwiliadau misol o ffeiliau rheolwyr unedau yn parhau ac yn cael eu hadolygu i wirio cydymffurfiaeth mewn cyfarfodydd llywodraethu lleol.	Rebecca Conlon, Rheolwr Arweinwyr Clinigol, Rheolwyr Unedau	28 Chwefror 2017